# CYNGOR CYMUNED MAENTWROG

## Cofnodion Cyfarfod 14.11.2023

Presennol: Meredydd Williams, Eirian Hoyle,Lynda Masarelli, Heulwen Parry, Elfed Roberts, Erwyn Jones,Gareth Jones

1. Ymddiheuriadau:

2. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir. HP. EH

3. Materion yn codi o'r cofnodion

3.498 Gellilydan (Bron Gelli): Cyrbau, disgwyl ymateb gan ADRA. Clerc i ail-gysylltu, os dim ymateb, cysylltu a'r Prif Weithredwr.

3.499 Cae Chwarae Gellilydan – Cyfarfod safle i'w drefnu gyda Adrian Williams (Cyngor Gwynedd) ac Michael Evans (Adra). Clerc wedi cysylltu, disgwyl ymateb.

3.500 Tir ger Gors Fach – gwaith atgyweirio – ER i anfon gwybodaeth ymlaen i'r clerc.

3.501 National Grid: grantiau ar gael. Bydd angen sefydlu pwyllgor ar wahân cyn gwneud cais. (cadw mlaen).

3.502 Parcio Gellilydan: Cyfarfod 17/05/23 ER i ymateb yn ôl i'r cyngor. Dim ymateb wedi ei dderbyn gan PC Elliw Roberts.

3.503 Bryn Arms, Gellilydan: Difrod dŵr – Cynhaliwyd gyfarfod safle ar y 6ed o Dachwedd, Meredydd Williams ac Rhydian Roberts yn bresenol. Ymchwil yn cael ei wneud, disgwyl ymateb.

3.504 Coed Gors Fach - Clerc wedi bod mewn cyswllt gyda Efan Thomos o Chyngor Gwynedd, clerc i ail-gysylltu

3.505 a. Gofeb – Iechyd a Diogelwch – MW am drefnu cyfarfod gyda Ifan Williams. (cadw mlaen).

3.505 b. Diolchwyd i Lynda ac Iwan am y gwaith a wnaethwyd yno cyn Sul y Cofio.

3.506 Maentwrog / Gellilydan – Elfed Roberts wedi cyfarfod ac Adrian Williams, adroddiad wedi dderbyn yn ôl gan Mr Williams.

- ***Diolch am eich amser i gwrdd yn Maentwrog i drafod materion yr ardal.***

***Hoffwn eich diweddaru ar y materion a drafodwyd.***

**Cadarnhaf fod y mater parcio gyferbyn a Gwesty Grapes wedi ei anfon ymlaen at Adran Trafnidiaeth yn Caernarfon am sylw.**

1. **Arwydd i hysbysu trafnidiaeth trwm i ddefnyddio A487 at Penrhyndeudraeth hefyd wedi ei anfon at Trafnidiaeth yn Caernarfon.**
2. **Hoffwn eich hysbysu fod drych newydd wedi ei archebu i'w osod ar hen Ffordd Gellilydan.**



D.M. Williams 30-1-2024

CamScanner

3. **Cadarnhaf fod trefniant i ein Gweithlu dorri'r tyfiant sydd o fewn y brifffordd yn Maentwrog a hefyd hen Ffordd Gellilydan.**
4. **Mae llythyr gorfodaeth wedi ei anfon at tirfeddianwyr sydd gyda coed yn gordyfu i'r ffordd a sydd creu pryder.**
5. **Mae'r Arolygwr wedi cysylltu gyda Gareth, Felin Rhyd Fach sydd wedi addo anfon lluniau o'r parcio i chwi ei rhannu gyda ni.**

3.507 Neuadd y Pentref – Cofnodion wedi eu derbyn. ymateb i'w anfon at Elen McQuilling,i gadarnhau bod y cyngor yn barod iawn i helpu gyda;r cyfansoddiad.

Dref Werdd – Adroddiad wedi dderbyn gan Megan, pob dim yn symud ymlaen yn dda. Mae safle y Gofeb wedi ei ychwanegu fel Prosiect 3. Diolchwyd i Heulwen Parry am ei gwaith.

3.508 Sul y Cofio - Diolchwyd i Mary Hughes am osod y Dorch.

4. Materion i'w trafod ar y pryd

4.208 Plas Tan y Bwlch – ebost wedi ei dderbyn gan Noelle Griffiths gyda phryderon bod y safle yn cael ei hysbysebu fel llety gwyliau ar booking.com. Clerc i gysylltu ac Emyr Williams Pennaeth y Parc i ymateb i'r ymholidad.

4.209 Tomen y Mur – Trafodaeth wedi bod.

4.210 Parcio Gellilydan – clerc i gysylltu a PC Elliw Roberts.

4.211 Rheilffordd Maentwrog – Lein yn plwyf Maentwrog – Clerc i gysylltu ac Liz Saville-Roberts i ofyn am gynreichiolaeth o'r cyngor ar unrhyw weithgaredd / datblygiad i ymwneud a'r lein.

4.212 Engi – ER,GJ am ofyn os oes posib ebostio y cyngor gyda diwedddariad.

4.213 – Safleoedd Bysiau Maentwrog – Clerc i gysylltu ac Rhian Wyn Williams i ofyn beth yw'r sefyllfa gyda'r safleoedd bysiau.

5. Ariannol

5.137 Cyfrif Cadw: £220.71

5.138 Cyfrif Cyfredol: £4932.96

Cytunwyd i dalu y canlynol:

5.139 Owain Aeron £1100.00

5.140 Owain Aeron £760.00

5.141 Richard Jones £100.00

5.142 Elusen Ambiwlans Awyr £150.00

5.143 British Legion £20.00

6. Cynllunio

Dim gwrthwynebiad i'r ceisidau canlynol:

6.63 Plas Tan y Bwlch NP5/73/LB425D - Caniatât Adteilad Rhestredig am wasith atgyweirio ar y strwythurau bwtres a pharapet presennol ar ddrychiad ochr y prif eiddo a chynnal



CS CamScanner

atgyweiriadau ar yr allfeydd dŵr glaw.

7. Gohebiaeth

229. Elused Ambiwlans Awyr – Cyfraniad.

230. Cyngor Bethesda – cefnogaeth cyfarfodydd hybrid.

231. Cyngor Gwynedd – Hawl tramwy cyhoeddud Maentwrog Rhif 43.

232. Panel Annibynol Cymru – Lwfansau Cynghorwyr.

233. Mark Gahan – Cronfa Grymuso Gwynedd.

8. Adroddiad o gyfarfodydd eraill

Dim newyddion.

9. Mynwent Dwyryd

9.19 Cyfrif y Fywent: £15554.52

Cytunwyd i dalu y canlynol:

9.20 Mr Martin Kerr £460.00 (Myfanwy Humphreys)

9.21 Mr Martin Kerr £440.00 (George Goodwin)

9.22 Mynwent Dwyryd – Safle parcio - copi o'r cynllun wedi ei anfon ymlaen at Mr Richard Williams, disgwyl ymateb.

9.23 Martin Kerr am gysylltu a Meredydd Williams i drefnu cyfarfod.

9.24 Cwyn wedi ei dderbyn am gyflwr y gwair gan Eileen Jones. Derlwyn. Gellilydan. Clerc i gysylltu a Richard Jones i drefnu torri gwair y Fynwent cyn gynted a sydd phosib.

10, Dyddiad cyfarfod nesaf

Ionawr 16eg 2024 am 6.30, ym Mhlas Tan y Bwlch, Maentwrog

D.M. [signature] 1.3
30-1-2024

CamScanner